AM DDIM

Cyfnodolyn yr Eglwys Fethodistaidd

Rhifyn 247 Ebrill - Mai 2024

# Gwyliedydd



# O'R GADAIR AR Y GOROR

gan y Parchedig **Jennifer Hurd**



Mi ges i fy magu yn Nwyrain Swydd Efrog, yn agos iawn at Afon Humber – dim ond pum munud i ffwrdd, a dweud y gwir. Atgof pwysig o fy mhlentyndod yn y 70au yw gwylio'r bont fawr yn cael ei hadeiladu, o balu'r sylfeini ar gyfer y tyrau, bob ochr i'r afon, hyd at ymweliad y Frenhines i'w hagor. Cawsom ddiwrnod i ffwrdd o'r ysgol i fynd i wylio. Arhosais i gartref! Am ychydig o flynyddoedd, ein pont ni oedd y bont rychwant-sengl fwyaf yn y byd, ac yn newyddbeth mawr i ni. Roedd Mam yn cofio ei mam hi yn dweud bod rhyw sôn wedi bod am bont dros Afon Humber ers dyddiau'r Rhufeiniaid. A dyna hi wedi ei chyflawni, tra oeddwn i yn yr ysgol i lawr y ffordd!

Yn fuan iawn ar ôl i'r bont gael ei hagor, digwyddodd yr ymdrech gyntaf i godi arian at achos da arni hi, a hynny er budd Cymorth Cristnogol. Aeth cefnogwyr Cymorth Cristnogol yn lleol ati i hel darnau o arian er mwyn creu 'Milltir o Geiniogau' dros y bont. Cyn rhoi'r darnau arian ar y pafin dros y bont, roddwyd darn hir iawn o dâp glynu dwy ochr ar y llawr ar hyd y bont, er mwyn cadw'r darnau'n ddiogel tra oedden nhw'n cael eu rhoi i lawr. Dwi'n cofio'r hwyl o greu'r 'Filltir o Geiniogau', a'r dathliadau pan roddwyd y darn olaf o arian i lawr ar y tâp gludiog ar y pafin! Am gamp! Codwyd swm teilwng ar gyfer Cymorth Cristnogol, ond ar ôl i'r darnau arian gael eu talu i mewn i'r banc lleol, a dechrau mynd i gylchrediad unwaith eto, roedden ni'n dal i gael hyd i ddarnau gludiog o arian yn ein pyrsiau a'n pocedi am wythnosau wedyn! Dyddiau dedwydd!

Rwy'n dweud y stori hon oherwydd fy mod yn parhau i gefnogi Cymorth Cristnogol, ac mae Wythnos Cymorth Cristnogol yn dod ym mis Mai, gan ddechrau eleni ar ddydd Sul 12fed a gorffen ar ddydd Sadwrn 18fed. Efallai nad oes llawer o ymdrechion enfawr fel y 'Filltir o Geiniogau' yn digwydd y dyddiau yma, ond mae gwaith Cymorth Cristnogol mor bwysig ac angenrheidiol ag erioed, efallai hyd yn oed mwy felly. Mae'n cynnwys codi ymwybyddiaeth yn ogystal â chodi arian. Yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol eleni byddwn yn cael ein cyflwyno i Aline. Mae Aline yn byw yn Burundi, un o wledydd Affrica ac un o'r gwledydd anoddaf yn y byd i fyw ynddynt. Priododd Aline yn ifanc iawn, a chafodd ei cham-drin gan ei gŵr. Priododd ei gŵr ferch arall, ac roedd yn rhaid i Aline ffoi, heb ei phlant. Bu'n byw ar y strydoedd mewn tlodi a thristwch. Daeth cyfle iddi hi wneud gweithdy efo Cymorth Cristnogol, ac ar ôl cael ei hyfforddi fe ddechreuodd Aline fusnes bach. Roedd hi'n ysu i gael ei phlant ati i fyw, ac ymhen amser, efo llawer o waith caled, daeth yn bosib iddi rentu tŷ. Daeth ei meibion hynaf i fyw ati yn syth, yn falch o ddianc oddi wrth eu tad a oedd yn eu cam-drin hwythau hefyd. Mae Aline yn parhau i weithio ac mae hi'n parhau i obeithio y bydd ei phlant ieuengaf yn ymuno â gweddill y teulu. Yn sicr, mae hi'n gwneud pob ymdrech i sicrhau hyn. Hyd yn oed pan ddaeth storm i ddinistrio ei chartref, bu'n bosib iddi hi werthu ei gwartheg ac ailddechrau, a'r cyfan oherwydd gweithdy Cymorth Cristnogol a gafodd ei gynnal efo cefnogaeth pobl fel ni. Yn wir, mae tipyn bach yn gallu gwneud gwahaniaeth mawr.

Efallai y buasai 'Milltir o Geiniogau' yn ormod o ymdrech i'r mwyafrif ohonom ni rŵan! Ac eto, mae digon o ffyrdd eraill i godi arian i helpu pobl fel Aline, yr Wythnos Cymorth Cristnogol hon. Mae casgliad arbennig ar y Sul yn ffordd syml ond effeithiol i hel arian, ac mae unrhyw ffordd sy'n cynnwys bwyd – bore coffi, gweini brecwast, gwerthiant cacennau, te prynhawn – yn hwyl ac yn dod â phobl at ei gilydd hefyd. Mae Cymorth Cristnogol yn darparu adnoddau ar eu gwefan i'n helpu ni i gynllunio, gan gynnwys adnoddau ar gyfer addoliad, ac maen nhw ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg (www.christianaid.org.uk). Dyna reswm arall pam rwy'n cefnogi Cymorth Cristnogol: mae'n ecwmenaidd o ran yr enwadau ac mae'n dod â ni at ein gilydd o safbwynt cymunedau ieithyddol hefyd. Yn wir, rwyf wedi clywed am drefi a phentrefi lle mai'r unig beth sy'n dod â Christnogion o'r ddwy iaith at ei gilydd yw digwyddiadau Wythnos Cymorth Cristnogol. Mae'n dod â ni yn nes at ein cymdogion byd-eang fel Aline, ac at y rhai i lawr y ffordd. Diolch i Dduw am Gymorth Cristnogol, yn codi pontydd ym mhob man.



# *Gwyliedydd*

**CYFNODOLYN CYMRAEG YR EGLWYS FETHODISTAIDD**

Sefydlwyd 1877
– Cyfres Newydd 1987

**RHIF 247**
**EBRILL – MAI 2024**

Dylid gwneud sieciau yn daladwy i "Yr Eglwys Fethodistaidd – Cylchdaith Cymru"

***SYLWER AR Y NEWID YN ENW'R CYFRIF, OS GWELWCH YN DDA***

**BARN Y CYFRANWYR UNIGOL A FYNEGIR YN YR EITEMAU UNIGOL**



**GOLYGYDDION**
**ROBIN JONES**
LLYS ALAW,
18 STAD ERYRI
BETHEL,
CAERNARFON
GWYNEDD LL55 1BX
Ffôn 01248 670140
Ffôn symudol 07780 869907
e-bost robinbethel@tiscali.co.uk

**FFION ROWLINSON**
CRUD YR AWEL
LÔN NEWYDD COETMOR
BETHESDA,
GWYNEDD
LL57 3DT
Ffôn 01248 605365
Ffôn symudol 07554 958723
e-bost ffion.rowlinson@trysor.f9.co.uk



**DYDDIAD CAU**
5 MAI 2024
Llun y clawr gan Tomas Griger (elfennau ohono gan NASA)


*Tyrd, Ysbryd Sanctaidd, tyrd yn awr*
*a gweithia ynom nerthol ffydd,*
*ac yn dy hyfryd nefol wawr*
*ein tywyll nos â'n olau dydd.*

Charles Wesley (Cyf. John Bryan)


Dyluniwyd gan Ffrwd Cyfyngedig
Argraffwyd gan Wasg y Lolfa




# Diolch

**Gwerthfawrogwn yn fawr y rhoddion hael a dderbyniwyd tuag at gostau cyhoeddi a dosbarthu'r *Gwyliedydd*, ynghyd â thanysgrifiadau.**

| | |
|---|---|
| Gwyneth Jones, Llanddeiniolen | £ 10 – 00 |
| J.M. a G. Griffiths | £ 15 – 00 |
| Ceri Dart, Bethesda | £ 10 – 00 |
| Olwen Williams, Bethesda | £ 10 – 00 |
| R.M. Edwards, Llanfairtalhaiarn | £ 20 – 00 |
| EBSCP (Llyfrgell Caerdydd a Phrifysgol Bangor) | £ 30 – 00 |
| Llywela O'Brien, Bangor | £ 10 – 00 |
| Morfudd Roberts, Abergele | £ 40 – 00 |
| Eglwys Gydenwadol Llangollen | £ 30 – 00 |
| Eryl Davies, Caerwys | £ 20 – 00 |
| Gwenllian Knighton, Y Fenni | £ 20 – 00 |
| Menai a Walter Williams, Bethesda | £ 20 – 00 |
| Ann, Nia a Bethan er cof annwyl am y Parch. W.O. Thomas | £100 - 00 |
| Cyfanswm | £335 - 00 |

**YN EISIAU**

## Swyddog Diogelu ar gyfer Cylchdaith Cymru yr Eglwys Fethodistaidd

Mae arnom angen rhywun i gefnogi a chynghori Arolygydd y Gylchdaith ac Arweinwyr yr Ardaloedd gyda materion Diogelu, gan gofnodi a rhoi gwybod am unrhyw faterion a ddaw i'ch sylw a chyfeirio at Swyddog Diogelu'r Synod ac asiantaethau allanol. Bydd cyfraniad y sawl sy'n ymgymryd â'r gwaith hwn yn rhan bwysig o waith a thystiolaeth y Gylchdaith trwy ein helpu i ddiogelu plant ac oedolion bregus. Bydd y Swyddog Diogelu yn mynychu hyfforddiant priodol a chadw cofnod o bawb sydd wedi ei hyfforddi o fewn y Gylchdaith. Bydd hefyd yn cadw cofnod o'r rhai sydd â DBS ac yn adnewyddu gwiriadau DBS pan fydd angen. Cysylltwch â'r Parchedig Ian Morris revdrian@btconnect.com 07707 494348 os gwelwch yn dda, i fynegi diddordeb.

Mae arnom hefyd angen penodi Trysorydd i Gylchdaith Cymru (swydd gyflogedig) gan fod Mr Hefin Williams yn ymddeol. Diolch i Hefin am ei holl waith. Os gwelwch yn dda, cysylltwch â'r Arolygydd am wybodaeth bellach os ydych yn credu y gallech wasanaethu'r Eglwys yn y swydd hanfodol hon.

# You Stupid Boy!

*gan y Parchedig Euron Hughes*



Ychydig wythnosau yn ôl daeth y newyddion trist bod Ian Lavender wedi ein gadael ni, actor oedd yn fwyaf adnabyddus am ei rôl fel Pike yn y rhaglen deledu *Dad's Army*. Hefo'i ymadawiad y mae pob un o'r prif gast bellach wedi marw. Diwedd cyfnod. Trist, oherwydd bod y rhaglen wedi bod mor boblogaidd ac wedi bod yn y cefndir ym mywydau cynifer ohonom. Ac rwyf fi, fel llawer ohonoch chithau efallai, yn ffan mawr o'r hen Dad's Army.

Wnes i erioed gyfarfod yr un o'r actorion ond, tua throad y ganrif, mi gefais gyfarfod crëwr Dad's Army, sef yr awdur Jimmy Perry. Digwyddodd hyn tra oeddwn yn mynychu cwrs yn Nhŷ Newydd Llanystumdwy a Jimmy Perry yn siaradwr gwadd. Roedd yn ddifyr a gonest iawn yn olrhain hanes ei yrfa a'r cydweithio gyda'i bartner David Croft wrth iddynt greu Dad's Army, ymysg nifer o raglenni eraill megis Hi-Di Hi ac ati.

Tra ar y cwrs gofynnais y cwestiwn yma iddo: pan oeddech yn ysgrifennu'r llinell anfarwol yna, y mae pawb yn ei chofio...

*"Your name vill also go ze list. Vhat is it?*

"DON'T TELL HIM PIKE!"

...oeddech chi'n gwybod yr eiliad honno eich bod wedi ysgrifennu rhywbeth anhygoel?

A'i ateb oedd: "Na, dim ond llinell arall ymhlith nifer ydoedd, dydach chi byth yn gwybod be sydd yn mynd i gydio mewn pobol. Doedd gennym ddim syniad ar y pryd... dim ond clywed nifer o bobol yn ei hailadrodd hi dros y blynyddoedd."

Wel... erbyn heddiw dwi'n teimlo bod ei eiriau yn hynod o ddifyr. Oherwydd weithiau byddaf yn mynd dros bregeth cyn ei chyflwyno hi a meddwl – o mae hon yn un dda... a does yna fawr o ymateb gan y gynulleidfa. Dro arall, dwi'n edrych ar bregeth a meddwl 'dydi hon ddim yn rhyw lwyddiannus iawn... ac mae'r gynulleidfa yn ymateb yn frwdfrydig ac fe glywaf ryw gymal neu frawddeg ohoni yn cael ei ailadrodd ataf wythnosau yn ddiweddarach...

A byddaf yn meddwl...sgen i ddim clem be dwi'n neud!!!

Ond wedyn, mewn bywyd, dydym ni byth yn gwybod sut mae pethau yn mynd i droi allan. Nid yw pob hedyn sy'n cael ei blannu yn egino. Yn Llyfr y Pregethwr fe welwn y geiriau yma:

"Unwaith eto, dyma sylwais dan yr haul: nid y cyflym sy'n ennill y ras, ac nid y cryf sy'n ennill y rhyfel; nid y doethion sy'n cael bwyd, nid y deallus sy'n cael cyfoeth, ac nid y rhai gwybodus sy'n cael ffafr. Hap a damwain sy'n digwydd iddynt i gyd."

Ni allwn fyth fod yn sicr sut mae pethau am droi allan, ac yn sicr ni ddylem ddisgwyl bod pob un peth yr ydym yn ei wneud yn troi allan yn wych! Yr unig beth sydd yn bwysig yw ein bod ni yn gwneud ein gorau yn ein hymwneud â'n gilydd ac yn ein hymroddiad i deyrnas Dduw. Dyna'r hyn y gallwn ei reoli. Nid ein lle ni yw disgwyl canlyniad positif a gwych bob tro! Dim ond bod yn ddigon dewr i fentro i wneud ewyllys Duw.



## Ymddiriedolaeth Benefact: helpu eglwysi i ffynnu yng Nghymru

Mae Ymddiriedolaeth Benefact, a sefydlwyd yn 1972, yn cynnig grantiau i eglwysi ac elusennau Cristnogol ledled y Deyrnas Gyfunol ac Iwerddon. Maent yn awyddus iawn i gefnogi eglwysi a chapeli yng Nghymru. Byddant yn helpu gyda chostau gwaith mawr ar brydiau – yn Eglwys Bethania, Aberfan, er enghraifft, maent yn noddi gwaith i adnewyddu'r adeilad cyfan i greu Canolfan i rannu'r Ffydd a chroesawu'r gymuned, gan ofalu am anghenion pobl leol.

Os ewch i'w gwefan ddiddorol www.benefacttrust.co.uk cewch weld yr holl waith amrywiol y mae'r elusen yn ei gefnogi, gyda'r nod o sicrhau dyfodol ein heglwysi a helpu pobl yn ein cymunedau. Mae adran arbennig o'r enw 'Methodist grants' – un yn unig o'r mathau o grantiau – a phrif ffynhonnell y nawdd yn y rhaglen arbennig hon yw rhoddion gan Methodist Insurance PLC. Gellir gofyn am gefnogaeth ar gyfer gwaith cenhadol Talaith, Cylchdaith neu Eglwys unigol.

BENEFACT TRUST

# Gweu

gan **Angharad Tomos**



Dwi yng nghanol **gweu**. Gweu cardigan ydw i, i fabi. Sgarff ydw i'n ei weu **fel arfer**, ond y tro hwn dwi'n dilyn patrwm, a fedra i ddim gwneud **pen na chynffon** ohono! Dydi'r gwaith ddim yn edrych yn debyg i gardigan o gwbl **ar hyn o bryd**.

Ond dwi ddim eisiau **datod** y gwaith. Rydw i bron â gorffen y dasg. Mae'n rhaid i mi **ddal ati**, a bod yn hyderus y bydd yn y diwedd yn edrych rhywbeth tebyg i **ddilledyn**.

Rhywbeth digon tebyg i hyn yw **bywyd**. Wrth edrych yn ôl arno, dydi ein bywyd ddim yn gwneud fawr o synnwyr, a does dim patrwm iddo. Ond ni sydd heb ddod at y diwedd.

Cofiaf ddarn o farddoniaeth yn Saesneg a ddysgais ryw dro – sôn am **wehyddu** oedd hwnnw, a'n bod ni yn edrych arno ac yn gweld yr **ochr chwith**. Y cyfan a welem oedd y clymau a'r blerwch **driphlith draphlith**. I Dduw, oedd yn edrych arno o'r ochr arall, yr oedd O'n gweld y **ceinder**, ac yn gallu ei werthfawrogi am yr hyn ydoedd. Ni sy'n meddwl ei fod yn llanast.

Gellir cymhwyso hyn i ddarn o weu hefyd, ac i'n bywydau. Peidiwn canolbwyntio ar y **camgymeriadau**, ar y **tyllau**, ar y ffaith nad yw yn gwneud synnwyr. Rydan ni wedi cael patrwm ar ffurf y Beibl. Falle ei fod yn **ymddangos** yn gymhleth ambell waith, fel **cyfarwyddiadau** gweu, a dydyn ni ddim yn gweld y patrwm – nac yn **ffyddiog** y bydd yn edrych yn well yn y pen draw.

Y gyfrinach ydi rhoi ein **ffydd** yn awdur y patrwm, ac y bydd pethau yn iawn yn y pen draw!

**gweu** – to knit
**fel arfer** – usually
**pen na chynffon** – head or tail
**ar hyn o bryd** – at present
**datod** – unravel
**ddal ati** – keep at it
**(d)dilledyn** – an article of clothing
**bywyd** – life
**(g)wehyddu** – weaving
**ochr chwith** – wrong side
**driphlith draphlith** – topsy turvy
**ceinder** – elegance
**camgymeriadau** – mistakes
**tyllau** – holes (twll – hole)
**ymddangos** – appear
**cyfarwyddiadau** – instructions
**ffyddiog** – confident
**ffydd** – faith (confidence)

# Adnewyddiad yn Ynys Manaw

Yn y flwyddyn 1605 daeth Cymro o'r enw John Phillips yn Esgob Sodor a Man sef Ynys Manaw. Mae'n debyg ei fod wedi dysgu'r iaith Fanaweg yn dda iawn a phregethu i'r bobl yn eu hiaith eu hunain. Cyfieithodd y Llyfr Gweddi Gyffredin hefyd i'r Fanaweg – 'The Mannish Book of Common Prayer by me translated'. Yn anffodus nid oedd yr Esgob yn gymeradwy gan rai pobl bwysig, yn enwedig Llywodraethwr yr Ynys, a ddywedodd yn ôl y sôn: 'being a Welshman, he could never do any good'! Heb yr elyniaeth yma, byddai dylanwad John Phillips yn sicr wedi bod yn fwy, ond bu'n ffyddlon i'w alwedigaeth.

Erbyn canol y G20, ychydig iawn, iawn o bobl oedd yn siarad Manaweg ond erbyn hyn mae adfywiad mawr wedi bod. Mae llawer o bobl Ynys Manaw yn credu bod yr iaith yn rhan bwysig o hunaniaeth yr ynys, ac maen nhw'n dysgu Manaweg. Mae'r Eglwys Fethodistaidd (Talaith Ynys Manaw) yn cefnogi'r iaith a'r diwylliant ac wedi dechrau cynnal oedfa Fanaweg bob chwarter gyda chymorth 'Yn Skimmee Gaelgach' sef Gwasanaeth yr Iaith Fanaweg. Meddai Rob, sy'n cymryd rhan yn yr oedfaon fel canwr: 'If you're studying the language deeply, you are going to refer to religious works a lot. The island has a very deep religious culture.' Mae capeli Methodistaidd i'w cael mewn llawer o lefydd gwledig lle mae diwylliant Manawaidd cryf ymhlith y gymuned amaethyddol. Mae cynnal oedfa Fanaweg yn rhoi cyfle i ddysgwyr glywed




ac ymarfer yr iaith. Mae pobl yn dod sydd ddim fel arfer yn mynd i'r capel. Ac mae pobl yn gofyn am fwy o oedfaon! "People find it deeply moving," meddai Cadeirydd Talaith Ynys Manaw, y Parchedig Janet Corlett.

Mae cynllun arall diddorol hefyd wedi dechrau yn Eglwys Fethodistaidd Peel yn Ynys Manaw, o'r enw Renew (Adnewyddu). Lle tawel, diogel, croesawus ydy e, lle gall pobl fynd i siarad, i arddio, i wneud pethau tawel, i gael cân a bendith a gweddi os ydyn nhw eisiau.

(Ffynonellau gwybodaeth: Dictionary of National Biography yn Wikipedia a Gwefan yr Eglwys Fethodistaidd)

# Capel Ni
## yn Eglwys Iesu

## Ebeneser, Treuddyn

### DYDD GWEDDI'R BYD
Cynhaliwyd y gwasanaeth undebol eleni yn Eglwys y Santes Fair, Treuddyn. Cymerwyd y rhannau arweiniol gan aelodau'r Eglwys a chapeli lleol. Thema'r gwasanaeth oedd 'Rwy'n erfyn arnoch i oddef eich gilydd mewn cariad' ac fe'i paratowyd gan Ferched Cristnogol Palesteina.

### DYDD GWENER Y GROGLITH
Estynnir croeso cynnes i bawb i ymuno â ni yn ein gwasanaeth fore Gwener y Groglith, Mawrth 29ain am 10.30 o'r gloch. Bydd Gwasanaeth Cymun dan ofal ein gweinidog y Parchedig Eirlys Gruffydd Evans.

### DYMUNIADAU GORAU
Anfonwn ein dymuniadau a'n cofion gorau at yr aelodau hynny sydd ddim yn dda eu hiechyd ar hyn o bryd. Dymunwn adferiad buan iddynt oll.

**GOHEBYDD** · GLENYS DAVIES

## Ardal Bathafarn

### ER COF ANNWYL
Gyda gofid y clywsom am farwolaeth y Parchedig Tudur Rowlands, a fu'n weinidog gyda ni fel Wesleaid yn ei flynyddoedd olaf wedi iddo ddod i fyw i Ddyffryn Clwyd. Cymeriad annwyl, naturiol a diymhongar iawn, bugail heb ei ail ac yn medru mynd i fyd pawb. Bu Tudur yn weithiwr teyrngar ac ymroddgar i'r Arglwydd Iesu am yr holl flynyddoedd. “Ei golli'n dristwch a'i gofio'n ddiddanwch”. Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant at Eirlys a'r teulu o golli priod, tad a thaid annwyl iawn.

### DYMUNIADAU GORAU
Rydym i gyd yn hynod falch fod Martha fach, merch Awen ac Ifan ac wyres i Rhian a Rhodri, yn gwella yn dilyn triniaeth yn Ysbyty Alder Hey. Dymuniadau gorau iddi hi a'r teulu. Anfonwn ein cofion anwylaf hefyd at Marian, Corwen, a gafodd anffawd; at Edwina a fu'n wael; ac at Gwyn Atkinson sydd yn derbyn gofal yng nghartref Bryn yr Eglwys, Pentrefoelas. Gobeithio y bydd cynhesrwydd y gwanwyn yn rhoi hwb i ni i gyd.

### OEDFAON
Cynhaliwyd Cyfarfod Gweddi Undebol Dechrau Blwyddyn ym Methania eleni. Cynrychiolwyd Bathafarn gan Lucy, a hi hefyd a'n cynrychiolodd yn yr oedfa ar Sul Undod yn yr Eglwys Gatholig. Hyfryd yw cael dod at ein gilydd fel eglwysi'r dref gan gofio bod nerth mewn undod ac mai gyda'n gilydd y byddwn yn canfod y ffordd ymlaen.

Hyfryd yw dod at ein gilydd i gynnal oedfaon yn Llys Awelon. Cynhaliwyd gwasanaeth y Cymun o dan ofal Elizabeth. Llywyddwyd gan Rhodri a chyfeiliwyd gan Rhian, gyda Cyril Jones yn croesawu pawb wrth y drws. Ar ddiwedd yr oedfa cafwyd cyfle am baned a chymdeithasu.

### PEN-BLWYDD HAPUS
Llongyfarchiadau calonnog iawn i Cyril Jones ar ddathlu pen-blwydd arbennig, yn 90 oed. Mae Cyril yn deyrngar iawn i achos Bathafarn. Pob bendith a hapusrwydd iddo.

### TAITH FEICIO
Rydym yn falch iawn o lwyddiant Lowri, un sy'n selog iawn i'r achos. Mae Lowri'n aelod o Glwb Seiclo Rhuthun ac yn ddiweddar fe wnaeth deithiau arbennig iawn. Bu ar ei beic ym mhob tywydd ar hyd lonydd y Gogledd er mwyn codi arian at ymchwil clefyd niwronau motor. Rhwng 1 Ionawr a 4 Chwefror, seiclodd Lowri gyfanswm o 1304km (815 milltir).

### DROS HEDDWCH
Daeth criw da at ei gilydd i Sgwâr Sant Pedr, Rhuthun, i ddangos cefnogaeth i'r alwad am heddwch a chadoediad parhaol yn Gaza. Trefnwyd hyn gan Grŵp Bae Colwyn Amnest Rhyngwladol ynghyd â Chymorth Cristnogol.

### DYDD GWEDDI'R BYD
Cynhaliwyd Gwasanaeth y Dydd Gweddi yn y Tabernacl, ar thema 'Rwy'n erfyn arnoch i oddef eich gilydd mewn cariad'. Fe'i paratowyd gan ferched Cristnogol Palesteina. Mae pobl Palesteina ac Israel yn ein meddyliau ni i gyd wrth iddynt ddioddef y fath ryfel arswydus.

**GOHEBYDD** · ELIZABETH JONES

## Saron, Bethel, Arfon

### FFYDDLONDEB
Mae Saron yn eglwys gyfoethog iawn yn yr ystyr fod gennym ni deulu o bedwar plentyn sef Huw, Cadi, Charles a Tiegan, yn mynychu ein hoedfaon yn ffyddlon bob Sul ynghyd â'u mam, Gwenan, ac ambell waith hefyd eu tad, Steve. Mae'r teulu yn byw yng Nghaernarfon ac yn teithio ar fws i Fethel. Mae Gwenan wedi ei geni a'i magu yn Saron fel cenedlaethau o'r teulu o'i blaen, ac mae hi bellach yn codi ei phlant ei hun yn yr un traddodiad. Y plant oedd yn gyfrifol am drefnu gwasanaethau'r Diolchgarwch a'r Nadolig y llynedd gyda help Mam a Nain. Diolch i Dduw am y teulu bach yma.

**GOHEBYDD** · RJ



## *Salem, Rhyd y Foel*

**EISTEDDFOD YR URDD**
Llongyfarchiadau i'r plant fu'n cystadlu yn Eisteddfod Cylch yr Urdd eleni a phob llwyddiant iddynt yn Eisteddfod y Sir.

**BANC BWYD**
Rydym wedi derbyn tystysgrif gan y banc bwyd lleol a llythyr o ddiolch am ein cyfraniad o 50.3 cilogram o nwyddau i'r elusen drwy gydol y flwyddyn.

**COFION**
Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau am adferiad iechyd buan i Mrs Margaret Morgan, priod y Parchedig Marc Morgan.

**YMWELIAD Â'R THEATR**
Dydd Mawrth Chwefror 13eg aeth rhai o'r aelodau a'r plant i Theatr y Pafiliwn yn y Rhyl i weld y Sioe Gerdd "Alice in Wonderland." Sioe benigamp a phawb wedi mwynhau'n fawr. Diolch i Esther am drefnu.

**PROFEDIGAETH**
Mae nifer o'n haelodau wedi colli anwyliaid yn ddiweddar ac anfonwn ein cofion a'n cydymdeimlad atynt yn eu colled.

**LLONGYFARCHIADAU**
Llongyfarchiadau i'n gweinidog a'i briod, y Parchedig Marc a Mrs Margaret Morgan, ar enedigaeth wyres fach sef Harriet Evelyn Morgan. Fe fydd Hattie a'i brawd mawr Teddy yn siŵr o gadw Tadcu a Nain yn brysur!

**GOHEBYDD**
SIÂN PRICE

## *Bethel, Rhiwbeina*

**OEDFAON YM METHEL**
Yn ystod yr wythnosau diwethaf cawsom gyfle i groesawu i'r pulpud y Parchedigion Gwilym Wyn Roberts, Robin Samuel, Jeff Thomas ac Aled Edwards ac ar ddau ddydd Sul roedd y gwasanaeth Cymun dan arweiniad ein gweinidog y Parchedig Evan Morgan.

**DATHLU A DIOLCH**
Mae'r Pasg yn agosáu ac yn y cyfnod hwn 25 o flynyddoedd yn ôl y daeth Evan atom yn weinidog am y tro cyntaf wedi iddo dreulio nifer o flynyddoedd ym Machynlleth. Mae sawl un ohonom yn cofio'r diwrnod y cychwynnodd ar ei waith ym Methel a mawr yw ein hapusrwydd o gael adnabod y person arbennig hwn. Diolchwn iddo am ei bregethau ysbrydoledig ar fore Sul, pan fydd pawb yn gadael y capel yn gwenu. Diolchwn hefyd iddo am ei gynhesrwydd fel bugail. Edrychwn ymlaen at ddathlu gydag Evan ym mis Ebrill a gobeithiwn y cawn ei gwmni am flynyddoedd eto i ddod.

**DYMUNIADAU GORAU**
Rydym yn dymuno'n dda i Llinos Howells sydd wedi ymestyn ei harhosiad yn y Wladfa, gan barhau i ddysgu plant bach yno. Dymuniadau gorau hefyd i Mair Owen a fu'n dathlu pen-blwydd arbennig yn ddiweddar.

**GOHEBYDD**
GWENDA FRANCIS

## *Pendref, Dinbych*

**OEDFAON YM MHENDREF**
Yn ystod Ionawr a Chwefror croesawyd Celfyn Williams, Dr Prydwen Elfed Owens, Yr Hybarch Bernard Thomas, Royce Warner, Dilwyn Jones ac Arwel Roberts i bulpud Pendref a mawr yw ein diolch iddynt am eu gwasanaeth. Yn anffodus oherwydd damwain bu'n rhaid i Elizabeth Jones ymddiheuro a chynhaliwyd cyfarfod gweddi dan ofal Eryl Davies a Medwyn Jones. Anfonwn ein dymuniadau da at Elizabeth am wellhad buan. Ar yr ail Sul yn Ionawr, yn ôl y traddodiad Wesleaidd cynhaliwyd gwasanaeth Adnewyddu'r Cyfamod dan ofal ein gweinidog y Parchedig Marc Morgan.

Blaenor mis Ionawr oedd Sheila Thomas gyda Medwyn Jones yn gofalu am fis Chwefror. Diolch i Vera Savage a Marjorie Williams am gyfeilio ac i Gwyn Williams am arwain y canu.

**GŴYL DEWI**
Dydd Sul 3ydd o Fawrth cynhaliwyd oedfa undebol Gŵyl Dewi tref Dinbych yn Eglwys Unedig y Fron a'r Brwcws. Llinos Mary Jones, Gwyddelwern, oedd yn annerch. Ar ran Pendref cymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan Gwyn Williams.

**CYDYMDEIMLO**
Gyda thristwch y derbyniasom y newyddion am farwolaeth sydyn Bryan Roberts. Er nad oedd yn aelod yma ym Mhendref roedd Bryan yn gyfaill hynod o ffyddlon i ni pan nad oedd gwasanaeth yn ei gapel ym Modfari, ac yn barod ei gymwynas i ni bob amser – bydd yn golled i ni fel eglwys. Roedd hefyd yn wirfoddolwr hynod o frwdfrydig a gweithgar gyda Chymdeithas Cyfeillion Ysbyty Glan Clwyd ac yn gadeirydd y gymdeithas honno. Mae ein cofion a'n cydymdeimlad gyda'r teulu.

Gyda thristwch hefyd y daeth y newyddion am farwolaeth sydyn y Parchedig Tudur Rowlands yn ei gartref yn Rhewl, Rhuthun. Ar ôl ei ymddeoliad o'i waith fel gweinidog gyda'r Eglwys Bresbyteraidd bu'n weinidog rhan-amser yma yn Ardal Dyffryn Clwyd yr Eglwys Fethodistaidd ac yn gofalu amdanom yma ym Mhendref rhwng 2012 a 2017. Mae ein cofion a'n cydymdeimlad gyda'i wraig Eirlys a'r teulu.

**DYMUNIADAU GORAU**
Rydym yn cofio am Sheila Thomas, gan anfon ein dymuniadau gorau ati am wellhad buan. Dymunwn hefyd wellhad llwyr a buan i Mrs Margaret Morgan, a fu yn Ysbyty Maelor, Wrecsam. Cofiwn yn ogystal am ein haelodau sydd ar hyn o bryd, am wahanol resymau, yn methu â mynychu'r oedfaon.

**GOHEBYDD**
MARY JONES



**DYDD GWEDDI'R BYD**
Dydd Gwener Mawrth 1af cynhaliwyd cyfarfod undebol Gweddi'r Byd yn y Capel Mawr. Cymerwyd rhan gan Marjorie Williams, Tegwen Williams a Mary Jones ar ran Pendref.

“GWERIN GWALIA’N CODI PAC, DRAW I’R GYMRU NEWYDD SBON.”

# PATAGONIA

*gan Llinos Howells*

**Mae Llinos yn treulio cyfnod yn gweithio fel athrawes ym Mhatagonia. Diolch iddi am rannu’r hanes â’r Gwyliedydd.**

Ychydig a wyddwn i wrth wrando ar gân fuddugol Cân i Gymru gan Alistair James y buaswn innau ymhen ychydig fisoedd yn codi fy mhac ac yn teithio draw i’r Wladfa, ar fy nhrydydd ymweliad. Roeddwn wedi dyheu am ddod yma ers yn blentyn ar ôl imi weld drama yn Eisteddfod y Drenewydd 1965 i ddathlu canmlwyddiant sefydlu’r Wladfa. Rwy’n cofio dweud wrth fy rhieni adeg hynny, “dwisio mynd i fanna ar ôl imi dyfu i fyny!”

Ffarwelio â’r haf yng Nghymru ganol Awst a chyrraedd y Gaiman yn nhalaith Chubut gyda’r gaeaf o fy mlaen, ac O! mi roedd hi’n oer yma. Ond buan iawn yr anghofiais am yr oerni gan mai cynnes iawn oedd y croeso. Pobl groesawgar a thwymgalon iawn yw’r Archentwyr. Ymgartrefais yn fuan iawn yn fy llety newydd sef Tŷ Camwy ar Stryd Michael D Jones, un o’r tai cyntaf a godwyd yma yn y Gaiman. Tŷ unllawr, clyd a chynnes, fy nhŷ bach twt! Wrth gerdded lawr y stryd roedd nifer o arwyddion dwyieithog, Cymraeg a Sbaeneg, o’m cwmpas a baner y Ddraig Goch yn amlwg mewn nifer o fannau. Teimlais yn gartrefol yn syth wrth gael fy nghyfarch, “bore da, sut dach chi?”

**“dwisio mynd i fanna ar ôl imi dyfu i fyny!”**

Tref gydag oddeutu 7,000 o boblogaeth ydy’r Gaiman. Yma y gwelir y dylanwad Cymreig gryfaf yn y Wladfa. Daw’r enw o iaith Tehuelche, y llwyth brodorol a oedd yma cyn y Cymry. Trwy’r dref llifa’r afon Camwy sy’n rhoi’r enw i’r dalaith, sef Chubut.

## Ysgolion y Wladfa

Gwawriodd fy more cyntaf yn Ysgol Gymraeg y Gaiman. Mae’r ysgolion yma yn dechrau am 8 o’r gloch y bore ac mae taith o ryw chwarter awr ar droed i gyrraedd yno. Rhaid i mi gerdded i bobman rŵan gan fy mod yn ddi-gerbyd. Ar ddechrau pob bore daw’r plant i gyd ynghyd i’r neuadd i godi’r faner, gan ganu anthem genedlaethol yr Ariannin ac yna ar ddiwedd y dydd ei gostwng a chanu Hen Wlad fy Nhadau. Mae tair baner sef baner yr Ariannin, baner y Dalaith a baner Cymru yn cael lle amlwg iawn mewn amrywiol seremonïau gan gynnwys Eisteddfodau, cyngherddau ac ati.

Rwy’n rhannu fy amser rhwng tair ysgol, sef Ysgol y Gaiman, Ysgol yr Hendre yn Nhrelew a Choleg Camwy sef yr ysgol uwchradd leol. Hefyd mae gen i ddosbarth o oedolion draw yn Nolavon ac unwaith yr wythnos byddaf yn cyfarfod â siaradwyr lleol sy’n rhugl yn yr iaith ond yn frwdfrydig iawn i gynnal sesiynau trafod am y byd a’r betws trwy gyfrwng y Gymraeg. Felly fel y gwelwch chi mae gen i amserlen brysur iawn.

Ac yna mae’r bywyd cymdeithasol, gwahoddiadau di-ri i dai ffrindiau am ‘asado’ sef cig sy’n cael ei rostio ar ffrâm fetel o flaen tanllwyth o dân. Cynhelir y nosweithiau anffurfiol hyn mewn ‘Quincho,’ sef adeilad ar wahân i’r tŷ ac fel arfer ar waelod yr ardd. A’r drefn Archentaidd ydy bod pawb yn cyfrannu trwy ddod â bwyd a diod at y bwrdd. Nosweithiau hwyliog dros ben gydag ambell i gân a dawns!

## Eisteddfodau

Ychydig ddyddiau ar ôl cyrraedd ym mis Awst, roedd Eisteddfod Mimosa draw ym Mhorth Madryn. Ar long y Mimosa, wrth gwrs, y cyrhaeddodd y gwladfawyr cyntaf ym 1865 gan lanio yng nghanol gaeaf oer ar Orffennaf 28ain. Gyda llaw 28 de julio yw enw’r cwmni bysus sy’n rhedeg rhwng Dolavon, Gaiman, Trelew a Phorth Madryn. Cefais amser wrth fy modd dros y ddau ddiwrnod yn yr Eisteddfod. Roedd y neuadd yn orlawn a’r cystadlu o safon uchel. Roedd yno awyrgylch hyfryd deuluol tan dri o’r gloch y bore, gwledd o ganu, dawnsio a chyflwyniadau dramatig.

Mae’r traddodiadau Cymreig yn gryf iawn yma ac mae’r capeli a godwyd gan y Cymry cynnar yn y Dyffryn a’r Andes yn ffyniannus iawn a’r aelodau yn selog hyd heddiw. Mae’r ysgolion Cymraeg yn gwneud gwaith gwych hefyd i hyrwyddo’r iaith a hybu Cymreictod.

Bu mis Hydref yn adeg brysur iawn wrth baratoi ar gyfer Eisteddfod y Wladfa a gynhelir yn Neuadd Dewi Sant, Trelew yn flynyddol. Daeth llu o ymwelwyr o Gymru draw a bu nifer o ddigwyddiadau cymdeithasol i’w croesawu. Derbyniwyd aelodau newydd i’r orsedd mewn seremoni urddasol wrth gerrig yr Orsedd yn y Gaiman. Yn anffodus roedd hi’n ddiwrnod gwyntog ofnadwy; nid yn unig y llwch oedd yn chwyrlïo o gwmpas ond hefyd y ponchos glas, sef gwisgoedd Gorsedd y Wladfa. Er gwaetha’r tywydd cafwyd eisteddfod lwyddiannus iawn a gwobrwywyd prifardd, prif lenor a phrif gerddor. Hyfryd oedd gweld y plantos yn cymryd eu rhannau yn y ddawns flodau a chyflwyno anrhegion i enillwyr y prif gystadlaethau.

Drannoeth yr eisteddfod cynhaliwyd cymanfa ganu yng nghapel Bethel y Gaiman, ac am ganu bendigedig! Roedd y capel yn orlawn ac yno, 8,000 o filltiroedd o Gymru canwyd emyn fy nhad, “Cofia’r Newynog” ar y dôn Arizona. Profiad emosiynol i mi a fy merch Rhiannon a oedd wedi dod draw ar ymweliad.

## Y Nadolig



Dechreuodd dathliadau'r Nadolig yn gynnar ym mis Rhagfyr gyda Noson Lawen hwyliog. Cymerwyd rhan gan blant yr ardal yn ogystal ag aelodau'r dosbarthiadau Cymraeg. Yna cafwyd gwledd o noson arall yn y Gimnasio (neuadd fawr yn y pentref) gydag eitemau gan yr Ysgol Gerdd. Clydwyn ab Aeron Jones a sefydlodd yr Ysgol Gerdd yn y flwyddyn 1978 yn Nhrelew ac yna agorwyd Ysgol Gerdd y Gaiman yn 1984 gydag Edith MacDonald yn bennaeth arni. Cornel arall o Gymreictod yn y Gaiman.

Bu gwasanaethau Nadolig mewn nifer o gapeli'r Dyffryn a Chwm Hyfryd. Bûm yng nghapel Bethel ar dri achlysur gwahanol, un dan ofal yr aelodau a minnau'n adrodd Stori'r Nadolig i'r plant ac un arall ar wahân gan blant yr Ysgol Sul. Hyfrydwch a llawenydd mawr ydy gallu dweud bod dros gant o blant yn mynychu'r Ysgol Sul bob wythnos. Yna ar noson arall trefnwyd gwasanaeth awyr agored gan y gymuned tu allan i gapel Bethel.

Fel y gwyddom ni athrawon yng Nghymru mae adeg y Nadolig yn amser prysur iawn yn ein hysgolion ond yma mae hi'n ddiwedd blwyddyn ysgol hefyd. Nid yn unig mae angen hyfforddi'r plant ar gyfer cyngherddau Nadolig ond hefyd mae seremonïau graddio yn achlysur o bwys, sef ffarwelio â'r plant sy'n gadael am yr ysgol uwchradd a hefyd plant bach y Meithrin sy'n symud i fyny i'r ysgol gynradd.

Digon tawel oedd y Nadolig ei hunan. Ar noswyl Nadolig daw teuluoedd at ei gilydd o gwmpas y bwrdd a dechrau bwyta tua naw i ddeg o'r gloch y nos. Mae'r Archentwyr yn hwyr-fwytawyr! Ac yna am hanner nos mae'r anrhegion yn ymddangos o dan y goeden, wedi cael eu rhoi yno gan yr hen Santa ar ei daith rownd y byd! Wedyn ar ddydd Nadolig, diwrnod arall i'r teuluoedd gyd-gwrdd a mwynhau asado yn yr awyr agored gan neidio i mewn ac allan o'r pwll nofio. Go wahanol i Gymru!

## Carris a José

Fe ddaeth mis Tachwedd a'r tywydd rŵan yn dechrau cynhesu. Daeth Gwyn fy mrawd draw yma ar ymweliad a hyfryd oedd cael ei gwmni. Fe aethom un noson i lansiad llyfr "Mebl, una niña de la Patagonia," a ysgrifennwyd gan Carris Hughes Davies (Pulgar), am ei mam yn tyfu i fyny ym Mhatagonia. Ganwyd Carris yn ardal Moriah, Trelew ond mae hi a'i gŵr José Pulgar bellach yn byw yn Chile. Bu'r ddau yn Weinidogion yr Efengyl ac mae'n siŵr y bydd nifer o ddarllenwyr y *Gwyliedydd* yn eu cofio'n ymweld â Chymru ym 1983. Braf oedd cael ailgydio yn ein cyfeillgarwch.



## Croesi'r Paith

Profiad arall pleserus a erys yn y cof oedd cael gwahoddiad i fod yn westai ar Radio Chubut dros y Nadolig. Darlledir rhaglen Gymraeg yn wythnosol bob prynhawn Gwener a hynny ers 1965 ar achlysur canmlwyddiant sefydlu'r Wladfa. Cyflwynwyd y rhaglenni am flynyddoedd gyda Tegai Roberts a Luned Gonzalez wrth y llyw. Liliana Evans ac Errol Hughes ydy'r cyflwynwyr erbyn heddiw. Chwaraeir amrywiaeth o gerddoriaeth Gymraeg rhwng y ceisiadau a'r cyfarchion.

Yn ystod fy nghyfnod yma cefais y cyfle i groesi'r paith yn ôl troed y Cymry dewr gan basio heibio i Ddôl y Plu, Dyffryn yr Allorau, Rhyd yr Indiaid a Tecka cyn cyrraedd Esquel a Threvelin yng nghysgod yr Andes. Taith o tua chwech i saith awr yn y car. A'r un oedd y croeso twymgalon yng Nghwm Hyfryd ac Ysgol y Cwm, y drydedd Ysgol Gymraeg yn y dalaith. Eleni hefyd bydd yr ysgol uwchradd gyntaf yn agor ei drysau yn Nhrevelin.

Profiad arall personol i mi oedd ymweld â 'Tŷ Taid,' yn Nhrevelin, sydd rŵan yn amgueddfa yn olrhain hanes ac yn cynnwys eiddo John Daniel Evans. Roedd JDE yn flaenllaw iawn yn hanes y Wladfa yn enwedig yn yr Andes. Hwyliodd draw i'r Ariannin yn ifanc iawn ar fwrdd y Mimosa. Yn ôl yr hanes aeth ef a thri Chymro arall i chwilio am aur pan ymosodwyd arnynt gan yr Indiaid. Dihangodd JDE wrth i'w geffyl Malacara neidio yn wyrthiol dros ddibyn serth, ond lladdwyd y tri arall a'u claddu mewn man a elwir heddiw yn Ddyffryn y Merthyron. Ac os ewch yno fe welwch gofeb iddynt. Mae bedd Malacara y ceffyl annwyl a ffyddlon i'w weld ar dir Tŷ Taid. Ond pam profiad personol? Wel, yno yn Nhŷ Taid y tynnwyd y llun sydd ar glawr casgliad emynau a cherddi fy nhad, 'Bara ein Bywyd,' nôl ym 1999 pan ddaeth fy nhad a minnau ar ein hymweliad â'r Wladfa. Cefais innau'r fraint eleni o gyflwyno copi o'r llyfr i wyres John Daniel Evans.




Rwyf wedi cael profiadau di-ri ac amhrisiadwy ers cyrraedd yma. Dim ond ciplun sydd yn yr erthygl hon ac mae yna dymor prysur arall o fy mlaen, siŵr o fod, pan fydd yr ysgol yn ailagor ym mis Mawrth. Os cewch chi byth gyfle, dewch draw i Batagonia i weld drosoch eich hun. Ac o bydded i'r hen iaith barhau!

# Capel Ni yn Eglwys Iesu

## *Shiloh, Tregarth*

### CROESAWU LLEUWEN

Nos Sadwrn, Ebrill 27, am 7.30 bydd y gantores Lleuwen Steffan o Rhiwlas, ond sydd yn byw yn awr yn Llydaw, yn cyflwyno noson dan y teitl 'Emynau coll y Werin' sef emynau llafar gwlad. Yn ystod y noson bydd Lleuwen yn defnyddio archif y daeth ar ei draws yn Amgueddfa Werin Sain Ffagan. Bydd yn cydganu weithiau gyda'r recordiad gwreiddiol a phryd arall mae'n ychwanegu seiniau electronig neu seiniau y mae wedi'u casglu o leoliadau arwyddocaol, at y cyfansoddiad.

Dewch yn llu i'r noson hollol arbennig hon. Mae'r mynediad am ddim ond os hoffech roi cyfraniad at elusen bydd cyfle i wneud hynny – mwy o fanylion ar y noson.



### PEN-BLWYDD ARBENNIG

Pen-blwydd hapus i un o'n haelodau mwyaf selog, sef y gantores Helen Wyn (Tammy Jones) ar ddathlu ei phen-blwydd yn 80 oed ifanc ar Fawrth 12.

**GOHEBYDD** · GWENDA DAVIES

## *Preswylfa, Cyffordd Llandudno*

### DYMUNIADAU GORAU

Dymunwn wellhad buan iawn i'r rhai o blith ein haelodau sydd wedi bod yn cwyno yn ddiweddar. Gwellhad buan hefyd i Margaret Morgan, priod ein gweinidog, a fu yn yr ysbyty. Brysiwch wella, bawb.

### DYDD GWEDDI'R BYD

Ar ddydd Gwener y 1af o Fawrth, yng Nghapel Coffa'r Gyffordd, cynhaliwyd Gwasanaeth Dydd Gweddi'r Byd, wedi'i baratoi gan ferched Cristnogol Palesteina. Roedd ein gwasanaeth dan arweiniad Mrs Mary Trinder a Mrs Eirwen Edwards. Cymerwyd rhan gan aelodau Eglwys Pensarn, Preswylfa a Chapel Coffa a'r organydd oedd Mrs Catherine Watkin.

**GOHEBYDD** · EIRIAN JONES

## *Ebeneser, Trefor, Môn*

### CYDYMDEIMLO

Bu farw Mrs Mair Eleanor Jones, Cae Mawr, Trefor gynt, ddiwedd Ionawr yn 102 mlwydd oed. Cafwyd gwasanaeth yng Nghapel Gorffwys Preswylfa, Fali ac fe'i claddwyd ym Mynwent Eglwys Llanffinan. Aelod yn yr Eglwys yng Nghymru oedd Mrs Jones ond byddai'n dod i Ebeneser ambell dro ac yn rhoi rhodd yn gyson tuag at yr achos yma. Cydymdeimlwn â'r teulu i gyd yn eu colled.

**GOHEBYDD** · CARYS THOMAS

## *Ebeneser, Dolgellau*

### LLONGYFARCHIADAU

Llongyfarchiadau i Alan ac Alison Woodbridge ar enedigaeth ŵyr bach arall ym mis Chwefror. Ganwyd mab, Ethan, i'w merch Hannah a'i gŵr yn Lerpwl.

### CYFARCHION PEN-BLWYDD

Mae un o'n haelodau selog sef Mary Davies wedi dathlu ei phen-blwydd yn 99 oed yn ddiweddar. Braf yw cael ei chwmni'n ôl atom yn yr oedfa ar fore Sul wedi iddi dreulio cyfnod yng Nghartref y Bay, Tywyn.

### DYMUNIADAU GORAU

Rydym yn parhau i feddwl am y Chwaer Eluned Williams sydd ddim yn dda ei hiechyd ar hyn o bryd. Hefyd anfonwn ein cofion at Mrs Doreen Thomas sydd yn aros dros dro yng Nghartref y Bay, Tywyn a hefyd at Ann Williams, sydd yn dal i wella ar ôl cael llawdriniaeth ar ei phen-glin yn ddiweddar.

**GOHEBYDD .** BERYL NORGROVE



### DYDD GWEDDI'R BYD

Ar ddydd Gwener 1af o Fawrth cynhaliwyd Gwasanaeth Dydd Gweddi'r Byd dan nawdd Cytûn Dolgellau a than arweiniad Menna ac Irene, dwy o aelodau'r capel hwn, gydag aelodau o eglwysi eraill y dref a'r ardal gyfagos yn cymryd rhan. Roedd y gwasanaeth wedi ei baratoi gan Ferched Cristnogol Palesteina.

## *Bethel Prestatyn*

### NEGESEUON O'R PULPUD

Cawsom ein bendithio gyda phregethwyr arbennig yn ystod yr wythnosau diwethaf ac rydym yn ddiolchgar iawn amdanynt. Neges syml Mrs Helena Jones oedd 'Dilyn fi' wrth sôn am Lefi (Mathew) yn cael ei alw i fod yn ddisgybl i'r Iesu. Cawsom ein hatgoffa fod Duw yn caru pawb ac yn ein derbyn pwy bynnag ydym. Daeth y Parchedig Dilys Jones atom o'r Amwythig, a'i neges hi oedd 'Dringo'r Mynydd', gan gyfeirio ar fynydd y Gweddnewidiad. Eglurodd fod yn rhaid 'dringo'r mynydd' ar adegau i weld y darlun llawn ond fod yn rhaid aros ar y gwaelod weithiau er mwyn cyflawni gwaith Duw. Fel bob amser, roedd Dafydd Iwan yn boblogaidd iawn gyda'r plant – pawb yn mwynhau'r canu gyda'r gitâr, y stori i'r plant a'r bregeth.

### GŴYL DEWI

Diolch i Mrs Delyth Davies am ein harwain mewn gwasanaeth teuluol i ddathlu Gŵyl Dewi. Cawsom gyfle i ddysgu emynau newydd a chlywsom ychydig o hanes Dewi Sant cyn trafod 'Y Pethau Bychain'. Cafwyd cyfle i bawb ystyried y deuddeg pwynt yn nhaflen yr Eglwys Fethodistaidd sef 'Y Ffordd Fethodistaidd o Fyw'.

### BEDYDD

Cawsom oedfa deuluol arbennig gyda'r Parchedig Brian Huw Jones wrth iddo fedyddio dau frawd bach, Caio a Nico. Diolchodd am y fraint o'u croesawu i deulu Bethel. Dymunwn bob bendith iddynt hwy a'u teulu. Cyflwynwyd Beibl Plant iddynt i'w ddefnyddio gartref. Daeth y Parchedig Brian Huw â'i ffrind i'r gwasanaeth sef y pyped 'Brian' a adroddodd stori wrth y plant am bwysigrwydd gweithio fel tîm. Eglurodd fod gan bawb waith arbennig i'w wneud a rhaid i ni weithio gyda'n gilydd i'w gyflawni.







### COFION

Anfonwn ein cofion at ein holl aelodau sydd yn methu mynychu'r oedfaon oherwydd gwaeledd.

### CROESO

Rydym yn hynod falch o gael cwmni Evelyn, aelod newydd o'r Ysgol Sul. Mae Evelyn yn wyres i Einir.

Croeso mawr i unrhyw un ymuno â ni am 10.30 bob bore Sul, hefyd ar fore dydd Mercher am baned a sgwrs.

**GOHEBYDD** · GWENDA HUMPHRIES

### BLAENORIAID NEWYDD

Llongyfarchiadau i Jane, Ffion a Manon ar gael eu hethol yn flaenoriaid newydd. Croesawyd hwy gan ein bugail ac fe ddiolchodd iddynt am eu ffyddlondeb a'u gwasanaeth yn y capel dros y blynyddoedd. Maent ill tair wedi bod yn mynychu'r oedfaon ers yn fabanod bach.



## *Tabernacl, Llanfyllin*

### DYDD GWEDDI BYD EANG

Cynhaliwyd y gwasanaeth arbennig yma ar ddydd Sul y tro hwn, gyda chwiorydd y gwahanol eglwysi yn cymryd rhan. Roedd y capel wedi cael ei harddu gan aelodau'r pwyllgor. Merched Palesteina oedd wedi paratoi'r gwasanaeth, gan ddewis y thema 'Rwy'n erfyn arnoch i oddef eich gilydd mewn cariad' – sydd mor amserol yn wyneb yr holl ddinistr sy'n digwydd yn y Dwyrain Canol ar hyn o bryd. Anfonwyd y casgliad o £100 at DGBE.

### OEDFA GŴYL DEWI

Ein gweinidog, y Parchedig Gwyndaf Richards oedd yng ngofal y gwasanaeth eleni a chawsom ein hatgoffa am ein nawddsant a chydganu emynau gwladgarol.

### CYNGERDD MWYNDER MYLLIN

Cynhaliwyd cyngerdd yn y Tabernacl i godi arian at Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Maldwyn, gyda doniau lleol yn cymryd rhan. A dyna beth oedd gwledd o amrywiol dalentau. Llwyddwyd i godi dros £2000 at yr achos. Edrychwn ymlaen at groesawu pawb i'r Eisteddfod ym Meifod ddiwedd Mai. Croeso cynnes, un ac oll!

**GOHEBYDD** · ALWENA FRANCIS

## *Rehoboth, Llanbedrog*

### YMA O HYD

Rydym yma o hyd yng nghapel Rehoboth, Llanbedrog! Mae'r ychydig aelodau sydd ar ôl yn dal i fynychu'r hen gapel ryw unwaith neu ddwywaith y flwyddyn. Mae yna dri chapel yn Llanbedrog sef capel Seion yr Annibynwyr, capel Peniel Eglwys Bresbyteraidd Cymru a ninnau, yn ogystal ag Eglwys Sant Pedrog. Mae'n drefn ers blynyddoedd maith i'r tri chapel ddod at ei gilydd i gynnal oedfaon. Mae'r aelodau yn mynd yn hŷn ac mae'r ddau gapel arall mewn safleoedd mwy cyfleus nag ydym ni. Bydd oedfa ym Mheniel yn y prynhawniau ac ambell oedfa am 5 o'r gloch yn Seion. Croeso i bawb.

**GOHEBYDD** · GWENDA WILLIAMS



# O'R LLAN

gan y **Canon Idris Thomas**

## TROI CEFN AR ANGLADDAU?

Ysgrifennaf hyn o lith ar drothwy tymor y Garawys. Sonia Ab Ithel yn ei emyn i'r tymor –"Goddefaist, Iesu, ympryd prudd" a phrudd yw un disgrifiad o angladdau. Syndod i raddau ar ddechrau Rhagfyr y llynedd oedd gweld y pennawd –"The British turn their backs on funerals", yn dilyn cyhoeddi un pôl piniwn. Mae'r pennawd i mi braidd yn gamarweiniol ac anghyfforddus ac nid yw troi eu cefnau yn rhoi darlun teg rywsut. Dyma rai yn unig o ganlyniadau'r pôl piniwn hwn: yn fras, ymatebodd 22% nad oeddent eisiau angladd o gwbl, gyda 28% ddim yn siŵr iawn. Roedd ffactorau ariannol yn dylanwadu ar 13% o'r rhai nad oedd eisiau angladd o gwbl, oherwydd nad oeddent wedi cynilo digon o arian. Credai 67% y gellid gwario'r arian ar bethau gwell a mynegodd 43% nad oeddent ddim eisiau gwasanaeth angladd traddodiadol o gwbl.

Holwyd hefyd beth oedd barn pobl am bwrpas a chynnwys gwasanaeth angladdol a'r ymateb mwyaf poblogaidd oedd i ddathlu bywyd yr ymadawedig. Roedd straeon, teyrngedau, caneuon poblogaidd yn dderbyniol iawn gan lawer; 11% oedd eisiau gweddïau a 12% am gael darlleniadau crefyddol. Holwyd am deimladau pobl ynglŷn â'u marwolaeth eu hunain pan ddeuai. Roedd chwarter y rhai a holwyd yn meddwl am hyn o leiaf unwaith yr wythnos. Canfuwyd mai anaml iawn yr oedd addolwyr selog yn tueddu i feddwl am eu marwolaeth. Pan ofynnwyd ble byddai pobl yn troi am gefnogaeth yn dilyn profedigaeth, roedd 38% am geisio cysur gan arweinydd crefyddol. Hoffaf eiriau pwerus diweddglo yr adroddiad: "mae'r Eglwys Gristnogol wedi sefydlu sgiliau tosturiol wrth gerdded gyda phobl ar ddiwedd eu bywydau ynghyd â gofalu am y rhai sy'n galaru. Rŵan mae'n rhaid ailagor y drafodaeth, enwi marwolaeth a meddwl sut y gall y gofal tosturiol hwn gael ei ail lunio er budd y byd newydd hwn. Mae ein cariad yng Nghrist i'r rhai sydd mewn galar yn ddiau yn fwy taer nag erioed."

## CAREDIG AC ARAF

Heddiw mae yna gynnydd mawr ym mhoblogrwydd y defnydd o elor gerbyd yn cael ei thynnu gan geffylau mewn angladdau. Darllenais gyda syndod am gwmni angladdau yn un o'n dinasoedd oedd wedi trefnu chwe chynhebrwng un diwrnod a phob un ohonynt yn cael ei dynnu gan chwe cheffyl! Meddai un ymgymerwr yn yr Alban: "Rwyf yn dotio at urddas y ceffylau. Mae rhywbeth caredig ac araf ynglŷn â hwy. Rydym yn byw mewn oes lawn cyflymder ac mae'n demtasiwn gwneud angladdau cyflym. Nid yw ceffylau yn mynd yn gyflym – a diolch i'r drefn nad ydynt yn carlamu i'r amlosgfa! Pan fyddaf yn gadael y byd hwn angladd gyda'r ceffylau yn cario'r arch yn bendant fydd arna i ei eisiau".

## ANGLADD GWAHANOL?

Rhai misoedd yn ôl, bu halibalŵ mawr yn dilyn cynhebrwng Shane MacGowan y bardd pync amlwg, mewn Eglwys Gatholig yn Iwerddon. Mewn addoldy llawn cafwyd cerddoriaeth wyllt, chwerthin a dawnsio – ond nid oedd pawb wedi ei blesio o bell ffordd. Dywedodd rhai fod y digwyddiad yn anghysegredig ac yn dangos amarch llwyr. Yn ôl un gohebydd oedd yn bresennol, roedd yr anhrefn yn rhywbeth anochel yn yr Iwerddon fodern lle mae awdurdod cymdeithasol a moesol yr Eglwys wedi ei erydu. Fe ddychwelodd Shane MacGowan at y Ffydd yn rhan olaf ei fywyd ac roedd yn dyheu am adfer diniweidrwydd ei blentyndod. Yn rhai o'i ganeuon, ac yntau wedi profi cymaint o nosweithiau duon yr enaid, fe gyffyrddodd â'r cysegredig. Hwyrach, drwy ei angladd a gafodd gymaint o sylw, y cawn gipolwg ar y gwahanfur yn codi rhwng y cysegredig a'r seciwlar, y naturiol a'r dwyfol.

# O'R PEN YMA


### *gan Angharad Tomos*

Dwi'n mynd ar fy ngwyliau mewn ychydig wythnosau... am fynd ar drên i'r Eidal, ac i'r Almaen. Mae'n llawer gwell gen i deithio efo trên. Rydym yn mynd i Ravenna, dinas oedd yn bwysig iawn yn y 5ed ganrif, mor bwysig â Rhufain; yna yn ymweld â Freiburg, lle bu T H Parry Williams yn y coleg, flwyddyn cyn y Rhyfel Mawr. Bydd yn dipyn o antur, a dyma'r tro cyntaf i'r mab ymweld â'r Eidal. Dwi'n edrych ymlaen, er na wn i fawr ddim beth sydd o fy mlaen.

Mae ein bywydau ar y ddaear hon ers amser Taith y Pererin, a chyn hynny, wedi cael eu disgrifio fel taith, a phan fydd y daith honno yn dod i'w therfyn, rydym yn gwybod – neu yn gobeithio – mai mynd i'r Nefoedd a wnawn. Ydi'r syniad hwn yn codi ofn ar rywun heblaw fi? Dwi'n amau ei fod. A'r rheswm am hynny debyg gen i ydi nad oes gen i syniad sut le ydi'r Nefoedd.

Does gen i fawr o glem sut lefydd ydi Ravenna a Freiburg chwaith, ond dwi'n edrych ymlaen at y daith honno, er mod i'n gwbl anwybodus. Beth yw'r gwahaniaeth?

Ar y gwyliau, byddaf yn mynd yno efo fy ngŵr a fy mab. Mae gen i gwmni. Os aiff pethau o chwith, fydda i ddim ar fy mhen fy hun. Pa bynnag drybini fydda i ynddo, bydd rhywun arall i fy nghysuro, a'm helpu i ddatrys y broblem. Nid felly mae hi ar y daith i'r Nefoedd. Mi fydd pob un ohonom ar ein pennau ein hunain. Eto, mae Duw wedi addo bod efo ni. 'Pe rhodiwn ar hyd glyn cysgod angau... yr wyt ti gyda mi' yw'r geiriau yn Salm 23, a'r geiriau olaf yn y salm ydi 'a phreswyliaf yn nhŷ yr Arglwydd yn dragywydd.' Pa mor blaen ydi'r neges? Dwi'n siŵr fod Duw yn ochneidio weithiau pan mae'n clywed fy ofnau!



Problem gyffredin cyn mynd ar wyliau ydi beth i'w bacio? Dydi hyn ddim yn codi efo'r daith i'r Nefoedd, achos does dim angen dim. 'Yn noeth y daethom i'r byd ac yn noeth y dychwelwn.' Eto, dwi mor gaeth i bethau daearol, mi leciwn fynd ag ambell beth gyda mi.

Ond i fod yn gwbl onest, y peth dwi'n ei ofni fwyaf ydi hiraeth. Pan dwi'n teimlo hiraeth ar fy ngwyliau, y cysur ydi y caf ddod adre mewn dim o dro. Fydd hynny ddim yn bosib yn y Nefoedd. Diffyg ffydd sydd tu ôl i hyn hefyd. Dydi pobl yn y Nefoedd ddim yn hiraethu, am fod y Nefoedd yn gymaint gwell. Mae Pantycelyn yn hiraethu am y nefoedd –

'Mae hiraeth arnaf am y wlad, lle mae torfeydd di-ri...'

Felly ddylwn i ddim pryderu. Dydi Duw ddim am inni bryderu. Poeni y byddaf yn anymwybodol ydw i. Ond ron i'n anymwybodol ar y 18 o Orffennaf, 1958. Falle mod i bryd hynny yn poeni am gael fy ngeni drannoeth, am fod ar fy mhen fy hun, neu'n hiraethu am y groth. Oeddwn i yn poeni am fentro i fyd na wyddwn i ddim oll amdano? Dydw i ddim yn cofio (nac yn poeni bellach). Dylwn fod wedi treulio'r 18 o Orffennaf 1958 yn edrych ymlaen at gael fy ngeni a'r profiadau mawr oedd o'm blaen!

Dwi'n gobeithio y gallaf deimlo felly ar ddydd fy marw hefyd. Os rhof fy ffydd yn Nuw, ddylwn i ddim poeni.

# Mae'n bwysig mynd allan

### *gan Glyn Tomos*

Wrth wylio'r teledu un noson gwelais hysbyseb yn annog pobl i chwarae bingo yn gysurus yn eu cartrefi eu hunain. Y neges oedd: pa ffordd well i ymlacio ar ôl diwrnod prysur yn y gwaith na chael eistedd yn ôl a chwarae bingo heb fynd allan o'r tŷ. Trît go iawn yn ôl yr hysbyseb, a minnau wedi meddwl erioed mai apêl bingo yw cael mynd allan o'r tŷ i chwarae'r gêm a chymdeithasu gyda ffrindiau ac wrth gwrs gobeithio am ychydig o lwc er mwyn ennill pres bach del yr un pryd.

Os gallwn, mae'n bwysig mynd allan o'r tŷ er mwyn cael newid awyrgylch a chael sgwrs efo hwn a llall. Tydy bod adra yn ddiddiwedd heb weld unrhyw un ddim yn dda i'n hiechyd meddwl a gall gyfrannu tuag at unigrwydd.

Dwi'n cofio fel y byddai fy mam oedrannus yn cael pleser mynd ar daith bws o'r pentref unwaith yr wythnos i'r dref agosaf i wneud ychydig o siopa bwyd. Byddai'n siŵr o ddod ar draws hwn a'r llall, cawsai sgwrs am bopeth o dan haul a chyfle i weld y byd o gwmpas ar y daith drwy wahanol bentrefi. Wedi cyrraedd y dref, siopa a dod adref byddai'n teimlo ganwaith gwell. Roedd hi'n iawn wedyn am wythnos arall. Tonic go iawn.

Er mai o fewn adeilad y byddem yn addoli o Sul i Sul y pleser mwyaf y byddem ni yn ei gael slawer dydd oedd cynnal dosbarth Ysgol Sul allan yn yr awyr agored yn ystod y Gwanwyn a'r Haf. Arferai criw bach ohonom eistedd ar y gwair o flaen yr Eglwys a chael awr hyfryd yng nghwmni ein gilydd yn mynd drwy'r gwasanaeth, yn darllen ac yn trafod storïau o'r Beibl. Dro arall byddem yn mynd i gerdded gyda'n gilydd o gwmpas y pentref a chael cyfle i werthfawrogi'r greadigaeth o'n cwmpas.

Byddem hefyd yn mynd allan o'r addoldy ar brynhawn dydd Gwener y Groglith, i orymdeithio drwy'r pentref gyda'r Groes. Pawb yn ei dro yn cael cyfle i gario'r Groes. Ar ddiwedd y daith byddem yn gosod y Groes o flaen yr Eglwys fel bod pawb yn gallu ei gweld, cynnal gwasanaeth byr cyn gorffen y dydd efo diod ysgafn a bwyta byns y grog.

I'r plant ac i ninnau fel athrawon yr Ysgol Sul, roedd addoli yn yr awyr agored yn dod â budd mawr. Roedd yn braf cael cyfle i arddangos ein Cristnogaeth i gynulleidfa tu allan i'r addoldy. Rhaid cyfaddef fod wynebau rhai o bobl y pentref ac ymwelwyr yn bictiwr wrth i ni orymdeithio gyda'r Groes. Ceir yn arafu ac yn methu deall beth oedd yn digwydd, nifer heb lawn sylweddoli ei bod yn ddydd Gwener y Groglith, eraill ddim cweit yn sicr beth i ddweud wrthym, ambell un yn teimlo'n annifyr wrth dorheulo yn eu gerddi!

Mae sawl eglwys a chapel yn cynnal gweithgareddau o'r fath, wrth gwrs. Mae'n dda gen i ddweud bod yr arferiad o orymdeithio gyda'r Groes ar ddydd Gwener y Groglith yn digwydd yn y dref lle rydw i bellach yn byw. Cynhelir gwasanaeth cyd-enwadol ac yna fe fyddwn yn mynd allan i'r awyr agored gan godi'r Groes a gorymdeithio drwy'r dref gan aros bob hyn a hyn ar y ffordd i ganu a darllen am hanes y Groes. Er mai criw bychan ydan ni mae'n dod â hanes y Groes yn fyw i ni ac i eraill gobeithio.

Os nad yw eich capel neu eich eglwys yn cynnal y math yma o orymdaith nac unrhyw weithgaredd yn yr awyr agored, byddai'n rhywbeth gwerth ei ystyried. Mae'n gyfle da i fynd â'n haddoliad allan o'n hadeiladau ac i'r byd o gwmpas.

# CYRCHU AT Y NOD

## *gan Huw Tegid*

Tybed beth ydych chi'n ei weld drwy'r ffenest yn y tŷ acw? Ydi lleoliad y tŷ yn rhoi milltiroedd o olygfa i chi, gyda nodweddion amlwg a chyfarwydd i chi ar y gorwel? Dim ond ers i mi symud i Ynys Môn ydw i wedi gwerthfawrogi o ddifri mor ffodus oeddwn i yn cael gweld yr Wyddfa o'r tŷ lle magwyd fy mrodyr a minnau.


Yma yn Ynys Môn, mae'r mynyddoedd yn brin (ac eithrio'r rhai a welwn ni yn y pellter yn Eryri), ond mae dau dirnod amlwg ar bob pen i'r sir i'w gweld am filltiroedd o'u cwmpas. Y cyntaf ydi Tŵr Marcwis ger Llanfairpwll, wrth i chi ddod ar yr Ynys oddi ar un o'r pontydd sy'n croesi'r Fenai. Yna, draw ar Ynys Cybi i'r gogledd-orllewin o'r fan honno, bu tŵr uchel arall yn sefyll ers dros hanner canrif – tŵr neu simnai hen waith Alwminiwm Môn, ar gyrion Caergybi.

Ar ôl cyfnod segur yn ddiweddar, mae Tŵr Marcwis newydd ailagor fel atyniad i dwristiaid, ond tynged wahanol iawn sy'n wynebu'r tŵr draw yng Nghaergybi. Ar ôl cyfnod segur iddo yntau ar ôl cau'r gwaith alwminiwm, penderfynwyd ei ddymchwel fel rhan o waith ailddatblygu'r safle.

Bydd yr olygfa tua'r gorwel o sawl cartref yng ngogledd Môn yn newid yn fawr, felly, pan gwymp yr hen dŵr. Bu'n dirnod defnyddiol dros y blynyddoedd, dwi'n siŵr, i sawl un oedd am ddifyrru'r plant ar hyd y daith draw i Gaergybi. "Am y cyntaf i weld y tŵr" fel y dywedodd sawl gyrrwr dros y blynyddoedd, yn siŵr i chi, wrth geisio rhoi taw ar y cecru o sedd gefn y car!

Wrth i un tŵr ddymchwel a diflannu, ac un arall gael ei adfer, mae'n codi cwestiwn ynghylch ein hymlyniad ni wrth bethau y medrwn ni eu gweld o'n cwmpas ni. Beth wnawn ni pan fydd y pethau cyfarwydd hynny sy'n gysur i ni, ac o bosibl yn rhoi ymdeimlad o fod 'adra' i ni, yn mynd o'n golwg ni? Ond wrth feddwl am bethau diriaethol a haniaethol, y gweladwy a'r anweladwy, daw geiriau Iesu wrth Mair Magdalen yn yr ardd ar fore'r Atgyfodiad i'r meddwl: "Paid â glynu wrthyf". Y wers galed yr oedd Iesu am i Mair ei dysgu'r bore hwnnw oedd bod angen dal ati, er nad oedd modd iddynt ei weld Ef fel o'r blaen. Aeth Iesu yn ei flaen i ddweud "dos at fy mrodyr, a dywed wrthynt, 'Yr wyf yn esgyn at fy Nhad i a'ch Tad chwi, fy Nuw i a'ch Duw chwi.'"

Mae pethau yn newid o'n cwmpas ni yn gyson yn y byd hwn – rhai pethau er gwell, eraill er gwaeth, yn dibynnu ar eich safbwynt chi. Serch hynny, pan ddaw'r newidiadau mawr hynny, a gofiwn ni am genadwri Iesu i beidio â glynu wrth y pethau y gallwn ni eu gweld (neu yr oeddem yn gallu eu gweld), ond yn hytrach wynebu'r dyfodol newydd gan gofio am yr hyn a fu, er na welwn ni'r pethau amlwg hynny mwyach?



# Deucanmlwyddiant Perfformiad Cyntaf 'Symffoni Gorawl' Beethoven

## *gan Gareth Blainey*

Eleni ydy deucanmlwyddiant perfformiad cyntaf un o'r gweithiau clasurol mwyaf poblogaidd hyd heddiw sef Symffoni Rhif 9 Ludwig van Beethoven (1770-1827). Ar 7 Mai 1824 ym mhrifddinas Awstria, Fiena, y clywyd symffoni olaf Beethoven am y tro cyntaf a hon oedd y symffoni gyntaf i ddefnyddio lleisiau unawdwyr yn ogystal â cherddorfa. Dyna pam y cafodd y llysenw 'Y Symffoni Gorawl' ac mae'r symudiad olaf yn osodiad ar gyfer unawdwyr soprano, alto, tenor a bas o gerdd "An die Freude" (Awdl i Lawenydd) gan y bardd Friedrich Schiller.

Dechreuodd Beethoven feddwl am osod y geiriau i gerddoriaeth fwy na deng mlynedd ar hugain ynghynt yn 1792, saith mlynedd ar ôl i Schiller ysgrifennu'r gerdd. Ymhlith y geiriau mae "Freude, schöner Götterfunken" – Llawenydd, wreichionyn hardd o'r nef – ac "Alle Menschen werden Brüder" – Bydd dynion yn frodyr i'w gilydd. Gwnaeth y cyfuniad o'r geiriau hynny a cherddoriaeth



# Teithio i Emaus

*gan Arwel Williams*

Pa mor dda ydych chwi ddarllenwyr y Gwyliedydd am gofio neu adnabod wynebau pobl? Rhai ohonoch yn well na'i gilydd mae'n siŵr, eraill, o bosib, yn well am gofio enwau. Meddyliwch am y bobl hynny a welwn bron yn wythnosol wrth eu pasio ar y stryd, neu'r rhai hynny sy'n gweithio mewn siop a fynychwn yn awr ac yn y man, heb erioed gael sgwrs â hwy, dim ond gwên, neu ddiolch yn fawr. Deuwn wedyn ar eu traws mewn lle gwahanol i'r arfer, ac er ein bod yn adnabod y wyneb, yn methu yn lân â chofio o ble. Os deuwn ar eu traws ymhell o gartref, ar ein gwyliau dyweder, a ni fel hwythau ymysg dieithriaid ac allan o'n cynefin, mae hynny rywsut yn ein tynnu at ein gilydd, a byddwn yn codi sgwrs – cyfeillgarwch yn datblygu mewn lle dieithr ac anghyfarwydd.

Dwi'n cofio ychydig flynyddoedd yn ôl mewn aduniad ysgol, cael cyfle i gyfarfod rhai o'm cyd-ddisgyblion o'r saithdegau eto. Llawer ohonynt nad oeddwn, hyd y gwn i, wedi dod ar eu traws ers dyddiau ieuenctid – a phwysleisiaf 'hyd y gwn i' gan mor hawdd yw colli nabod a'r blynyddoedd yn tueddu i newid pob un ohonom. Byddaf yn meddwl yn aml, tybed a oeddwn dros y blynyddoedd wedi mynd heibio rhai ohonynt ar y stryd neu mewn rhyw Eisteddfod neu Ŵyl a heb eu hadnabod. Eto yn yr aduniad llwyddais i adnabod a rhoi enw i bob un, a hynny wrth gwrs gan fy mod yn disgwyl, ac yn wir gobeithio, eu gweld yno.

Mae rhai wedyn â chlust arbennig o dda am adnabod llais. Mae wedi mynd yn rhyw fath o gystadleuaeth acw pan fyddwn yn troi'r radio ymlaen ar ganol rhaglen i geisio dyfalu pwy ydi gwestai'r cyflwynydd, neu pwy yw'r cantor neu'r gantores.

Pan fydd rhifyn yma y Gwyliedydd yn gweld golau dydd mi fyddwn yn nhymor y Pasg. Sut yn y byd ddaru Mair, wedi iddi fynd at y bedd, gamgymryd yr Iesu am y garddwr? Mi wn fod nifer o esboniadau wedi eu cynnig, ond clywed ei lais a'i galluogodd i adnabod yr Iesu.

Wedyn beth am y ddau oedd yn cerdded i Emaus, pan ymunodd yr Iesu â hwy? Hwythau ar y dechrau heb ei adnabod wrth iddo ymddiddan â hwy, er iddynt deimlo eu calonnau yn llosgi. Yn ôl Efengyl Luc "rhwystrwyd eu llygaid rhag ei adnabod". Roedd eu hanallu i'w adnabod yn ddealladwy: wedi'r cyfan roedd yr Iesu wedi ei groeshoelio a'i gladdu. Yn ogystal roedd eu holl obeithion wedi eu chwalu – ac fel Mair, roeddent mewn digalondid ac mewn lle tywyll iawn. Methodd y ddau ei adnabod hyd nes iddo gymryd ei le wrth eu bwrdd a thorri bara.

Mae'r Iesu yn ei amlygu ei hun i ni mewn gwahanol ffyrdd yn unol â'n hamgylchiadau ar y pryd, ac mae i bob un ohonom ein taith ar ffordd Emaus. Ond mi ddylai taith Cleopas a'i gydymaith ein calonogi, oherwydd pan fyddwn ninnau ynghanol stormydd bywyd a phan fydd anobaith yn ein llethu ac yn bygwth ein trechu, bydd yr Iesu yno, yn cydgerdded â ni. Dim ond i ni wrando ar ei lais, cawn deimlo ein calonnau ninnau yn llosgi, a chawn ei wahodd i'n bywydau, i'n harwain ninnau hefyd o anobaith i orfoledd.

*Tydi, fu'n rhodio ffordd Emaus*
*'r ôl torri grym y bedd,*
*Enynna mewn calonnau oer*
*Y fflam o ddwyfol hedd.*

Beethoven argraff fawr ar y gynulleidfa yn Fiena ddau can mlynedd yn ôl. Fel mae John Suchet yn sôn yn ei lyfr am y cyfansoddwr, pan ddaeth y symffoni i ben cododd aelodau'r gynulleidfa ar eu traed a bloeddio 'Beethoven!' Tristwch mawr ydy'r ffaith nad oedd o'n gallu clywed yr ymateb oherwydd ei fod o'n hollol fyddar. Er gwaethaf hynny roedd Beethoven wedi mynnu sefyll ar y llwyfan o flaen y gerddorfa a'r unawdwyr i'w 'harwain' ond Michael Umlauf arweiniodd y perfformiad. Bu raid i'r unawdydd alto Karoline Unger gyffwrdd Beethoven ar ei ysgwydd a'i droi i wynebu'r gynulleidfa er mwyn iddo allu gweld y gymeradwyaeth.

Bron i gant a hanner o flynyddoedd ar ôl perfformiad cyntaf y symffoni yn 1972 dewisodd Cyngor Ewrop y symudiad olaf fel eu hanthem ac ar Ddydd Nadolig 1989 arweiniodd Leonard Bernstein berfformiad nodedig o'r symffoni ym Merlin. Gwnaeth hynny fis a hanner ar ôl i Wal Berlin gael ei dymchwel. Yn y perfformiad newidiodd Bernstein y gair 'Freude' – Llawenydd – i 'Freiheit' - Rhyddid, a 'Freiheit' yn hytrach na 'Freude' ganwyd gan gôr anferth yn symudiad olaf y symffoni.



# Ar gyfer y plant

Ar ôl i Iesu Grist gael ei groeshoelio, roedd ei ffrindiau'n meddwl bod popeth ar ben. Roeddent yn torri eu calonnau. O, am gael ei gwmni eto ar y mynydd yng Ngalilea lle buodd o'n eu dysgu!




LLUN: BIBLE FREE IMAGES

Ond nid dyma oedd y diwedd. Fe atgyfododd Iesu – a dim ond dechrau oedd y stori. Dyma mae Mathew'n ei ddweud yn ei Efengyl:

*Aeth yr un disgybl ar ddeg i Galilea i'r mynydd lle y trefnodd Iesu iddynt fod; a phan welsant ef addolasant ef, er bod rhai yn amau. Daeth Iesu atynt a llefaru wrthynt: "Rhoddwyd i mi," meddai, "bob awdurdod yn y nef ac ar y ddaear. Ewch, gan hynny, a gwnewch ddisgyblion o'r holl genhedloedd, gan eu bedyddio hwy yn enw'r Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân a dysgu iddynt gadw'r holl orchmynion a roddais i chwi. Ac yn awr, yr wyf fi gyda chwi yn wastad hyd ddiwedd amser.". (Mathew 28:16-19 BCND)*

Ymhen amser, fe wnaethon nhw ysgrifennu hanes bywyd Iesu. Mathew oedd un o'r rhai fu wrthi'n ysgrifennu'r hanes i helpu pobl i ddod i wybod am Iesu a'i adnabod.



## Beth am greu ffenest liw hardd yn dangos Mathew wrth ei waith yn ysgrifennu'r Efengyl?